WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2005/2006

Rhagfyr 2006

**Awduron: Matthew Edwards a Mark Roberts** **Cyf: 582A2006**

# Asesiad Archwilio Mewnol

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 3 |
| Erys lle i Archwilio Mewnol a'r Awdurdod Tân ddatblygu ymhellach eu trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r deg o safonau Archwilio Mewnol CIPFA | 3 |
| Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig | 4 |
| Mae'r Archwiliad Mewnol wedi cydymffurfio'n llawn â phedwar o'r 10 o safonau Archwilio Mewnol | 4 |
| Safonau sefydliadol | 6 |
| Safonau gweithredol | 7 |
| **Atodiadau** | |
| Cynllun Gweithredu | 9 |


### Statws yr adroddiad hwn


Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:

- Mewn perthynas ag archwiliad, o dan y ddeddfwriaeth alluogi berthnasol a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, ac yng nghyd-destun y 'Datganiad o Gyfrifoldebau', a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Mewn perthynas ag arolygiad, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir adroddiadau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr penodedig, ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion yn cynnwys y sawl a ddynodwyd yn swyddogion cyfrifyddu neu'n swyddogion atebol. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff a enwir yn unig, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilwyr a benodwyd yn atebol i unrhyw aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

## Crynodeb

## Erys lle i Archwilio Mewnol a'r Awdurdod Tân ddatblygu ymhellach eu trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r deg o safonau Archwilio Mewnol CIPFA

1. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Safon Archwilio Ryngwladol 610 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried p'un a yw trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn ddigonol. Mae Archwiliad Mewnol yn elfen allweddol o system rheolaeth fewnol.
2. Darperir gwasanaeth Archwilio Mewnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan Adran Archwiliad Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym wedi asesu'r Archwiliad Mewnol yn erbyn eu safonau proffesiynol fel y nodir yn 'Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig' CIPFA. Pan gyrhaeddir y safonau hyn rydym yn bwriadu dibynnu ar waith yr adran Archwiliad Mewnol wrth adolygu systemau ariannol yr Awdurdod Tân fel rhan o'n harchwiliad o'r cyfrifon.
3. Erys lle i Archwilio Mewnol a'r Awdurdod Tân ddatblygu ymhellach eu trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r deg o safonau Archwilio Mewnol CIPFA. Mae ein hadroddiad manwl yn nodi ein canfyddiadau ar gyfer pob un o safonau CIPFA. Rydym wedi gwneud saith o argymhellion fel y nodir isod.

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai staff yr Archwiliad Mewnol lofnodi tystysgrif annibyniaeth flynyddol o ran eu gwaith yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru. |
| A2 | Dylai'r Awdurdod Tân ffurfio Pwyllgor Archwilio ag iddo gyfansoddiad priodol sy'n bodloni gofynion y canllawiau a gafodd eu cynnwys yng nghyhoeddiad diweddar CIPFA 'Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol'. |
| A3 | Dylid cynnal trafodaethau cynllunio estynedig gyda rheolwyr yn flynyddol. |
| A4 | Dylid datblygu Protocol Archwilio sy'n ffurfioli'r berthynas waith rhwng archwiliad mewnol ac archwiliad allanol. |
| A5 | Dylai'r adran Archwiliad Mewnol ddatblygu strategaeth Archwiliad Mewnol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA. |
| A6 | Dylid cynnal gwaith dilynol ac adolygu aseiniadau ac argymhellion y flwyddyn flaenorol. |
| A7 | Dylai'r Adroddiad Blynyddol fodloni holl ofynion y safon Archwiliad Mewnol o ran cyflwyno adroddiadau. |

## Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig

4. Ystyria Llywodraeth Cynulliad Cymru fod Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn cynrychioli arferion cywir. Cynhaliwyd ein hasesiad yn erbyn y safonau sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer CIPFA, sydd wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 1.
5. Gwnaethom adolygu sampl o gynlluniau a rhaglenni archwilio, lefelau staffio, papurau gwaith ac adroddiadau ar gyfer amrywiaeth o systemau, er mwyn penderfynu i ba raddau yr oeddent yn cydymffurfio â'r safonau Archwiliad Mewnol.

## Mae'r Archwiliad Mewnol wedi cydymffurfio'n llawn â phedwar o'r 10 o Safonau Archwilio Mewnol

6. Darperir gwasanaeth Archwilio Mewnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan Adran Archwiliad Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Erys lle i Archwilio Mewnol ddatblygu ymhellach eu trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r deg o safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol. Caiff ein hasesiad yn erbyn safonau Archwilio Mewnol awdurdodau eu crynhoi yn Arddangosyn 1.
7. Byddai'r trefniadau yn cael eu gwella ymhellach drwy sefydlu Pwyllgor Archwilio ag iddo gyfansoddiad priodol a datblygu strategaeth Archwiliad Mewnol yn y tymor canolig. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ein hasesiad blynyddol. Nodir y rhain yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1.

**Arddangosyn 1: Asesiad yn erbyn Cod Ymarfer CIPFA**

| Safon | | A Gyrhaeddwyd y Safon Ateb | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Safonau sefydliadol** | | | |
| 1 | **Cwmpas yr Archwiliad Mewnol** - A yw cwmpas yr Archwiliad Mewnol wedi'i nodi'n glir yn y cylch gorchwyl y cytunwyd arno sydd wedi'i gyfleu i'r Awdurdod Tân? | Ydy | Mae'r Archwiliad Mewnol wedi bodloni gofynion y safon o ran cwmpas gwaith yr Archwiliad Mewnol. |
| 2 | **Annibyniaeth** - A oes gan yr Archwiliad Mewnol statws sefydliadol digonol i allu ymgymryd â'i waith yn effeithiol? | Yn rhannol | Mae gan yr Archwiliad Mewnol statws sefydliadol digonol i allu ymgymryd â'i waith. Dylai staff yr Archwiliad Mewnol gwblhau tystysgrif annibyniaeth flynyddol o ran y gwaith yn yr Awdurdod Tân. |
| 3 | **Pwyllgor Archwilio** - A yw'r Awdurdod Tân wedi sefydlu corff sydd â'r nod o gyfrannu at y broses o sicrhau y cynhelir amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol? | Yn rhannol | Yr Awdurdod Tân sy'n delio â materion archwilio a chyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol i'r Awdurdod. Nid oes gan yr Awdurdod Tân bwyllgor sydd ag iddo gyfansoddiad llawn i gyflawni rôl Pwyllgor Archwilio. |
| 4 | **Cydberthnasau** - A yw'r Archwiliad Mewnol wedi sefydlu cydberthnasau effeithiol â rheolwyr? | Yn rhannol | Mae'r Archwiliad Mewnol wedi sefydlu cydberthnasau effeithiol â Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Mae lle i Bennaeth yr Archwiliad Mewnol ddatblygu cydberthnasau ag uwch reolwyr yr Awdurdod Tân o hyd. |
| 5 | **Staffio, hyfforddiant a datblygu** - A oes gan yr Archwiliad Mewnol ddigon o staff ac adnoddau? | Oes | Mae gan yr Archwiliad Mewnol ddigon o staff ac adnoddau. |
| **Safonau gweithredol** | | | |
| 6 | **Strategaeth archwilio** - A oes gan yr Archwiliad Mewnol strategaeth archwilio sy'n nodi sut y darperir a datblygir ei waith? | Nac oes | Nid oes gan yr Archwiliad Mewnol strategaeth archwilio sy'n nodi sut y darperir a datblygir ei waith. |
| 7 | **Rheoli aseiniadau archwilio** - A yw briffiau aseiniadau yn cael eu paratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA? | Yn rhannol | Mae aseiniadau unigol wedi'u rheoli'n dda a chynhyrchwyd ffeiliau papur gwaith unigol i safon dda. Nid yw'r Archwiliad Mewnol wedi cynnal gwaith dilynol ar weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan reolwyr yn y flwyddyn flaenorol. |
| 8 | **Gofal proffesiynol priodol** - A yw'r Archwiliad Mewnol yn defnyddio gofal proffesiynol priodol wrth gyflawni eu dyletswyddau? | Ydy | Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau y dilynir safonau proffesiynol o'r radd flaenaf ac y cydymffurfir â hwy. |
| 9 | **Cyflwyno adroddiadau** - A yw'r Archwiliad Mewnol wedi pennu'r ffordd y cyflwynir adroddiadau ar ganfyddiadau yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer CIPFA? | Yn rhannol | Nid yw Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Cod Ymarfer CIPFA. |
| 10 | **Sicrwydd ansawdd** - A yw gwaith yr Archwiliad Mewnol wedi'i reoli ar bob lefel gweithredu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer CIPFA? | Ydy | Mae gwaith yr Archwiliad Mewnol wedi'i reoli ar bob lefel gweithredu ac mae pob aseiniad archwilio yn ddarostyngedig i adolygiad gan swyddog goruchwylio. |

## Safonau sefydliadol

### Nodir cwmpas yr Archwiliad Mewnol yn glir yn y cylch gorchwyl y cytunwyd arno

**8.** Nodir cwmpas cyffredinol yr Archwiliad Mewnol yn Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod Tân a'u cwmpasu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ym mis Ebrill 2004. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cwmpasu'r elfennau hynny a ddisgwylir ac nid yw'n darparu unrhyw gyfyngiad ar gwmpas gwaith yr Archwiliad Mewnol.

### Mae'r Archwiliad Mewnol yn ddigon annibynnol

**9.** Mae gan yr Archwiliad Mewnol annibyniaeth o ran statws sefydliadol a gwrthrychedd personol i'w alluogi i ymgymryd â'i waith yn effeithiol.

**10.** Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Conwy ac yn hynny o beth nid oes gan ei staff ddyletswyddau gweithredol yn yr Awdurdod Tân.

**11.** Dengys ein hadolygiad nad oedd staff yr Archwiliad Mewnol yn cwblhau datganiadau annibyniaeth blynyddol o ran eu gwaith yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai staff yr Archwiliad Mewnol lofnodi tystysgrif annibyniaeth flynyddol o ran eu gwaith yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru. |

### Nid yw'r Awdurdod Tân wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio

**12.** Yr Awdurdod Tân sy'n delio â materion archwilio a chyflwyniwr Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol i'r Awdurdod. Nid oes gan yr Awdurdod Tân bwyllgor sydd ag iddo gyfansoddiad llawn i gyflawni rôl Pwyllgor Archwilio. O ganlyniad nid yw'r Awdurdod Tân yn bodloni'r canllawiau sydd yng nghyhoeddiad diweddar CIPFA 'Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol'.

| | |
|---|---|
| A2 | Dylai'r Awdurdod Tân ffurfio Pwyllgor Archwilio ag iddo gyfansoddiad priodol sy'n bodloni gofynion y canllawiau a gafodd eu cynnwys yng nghyhoeddiad diweddar CIPFA 'Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol'. |

### Mae'r Archwiliad Mewnol wedi sefydlu cydberthnasau effeithiol â rheolwyr

**13.** Mae'r Archwiliad Mewnol yn parhau i ddatblygu ei gydberthnasau â rheolwyr. Mae cwmpas i ddatblygu cydberthnasau ymhellach ag uwch reolwyr i wella proses gynllunio'r Archwiliad Mewnol.

**14.** Mae cydberthynas adeiladol yn parhau i gael ei datblygu rhwng yr archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol (Swyddfa Archwilio Cymru). Gellir cryfhau'r gydberthynas hon drwy ddatblygu Protocol Archwilio y cytunir arno.

| | |
|---|---|
| A3 | Dylid cynnal trafodaethau cynllunio gyda rheolwyr, yn cynnwys Pennaeth yr Archwiliad Mewnol, yn flynyddol. |
| A4 | Dylid datblygu Protocol Archwilio sy'n ffurfioli'r berthynas waith rhwng archwiliad mewnol ac archwiliad allanol. |

### Mae gan yr Archwiliad Mewnol ddigon o staff ac adnoddau

**15.** Mae gan yr Archwiliad Mewnol ddigon o staff ac adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau. Gwnaed trefniadau digonol i sicrhau bod gan staff yr Archwiliad Mewnol sgiliau priodol.

## Safonau gweithredol

### Nid yw'r Archwiliad Mewnol yn llunio strategaeth archwilio sy'n nodi sut y caiff ei waith dros y tymor canolig ei ddarparu a'i ddatblygu

**16.** Nid yw'r Archwiliad Mewnol wedi llunio strategaeth Archwilio Mewnol sy'n nodi cwmpas gwaith yr Archwiliad Mewnol ac yn manylu ar sut a phryd y darperir y gwaith. Mae cod CIPFA yn nodi y dylai'r strategaeth archwilio gyfeirio at:

- Sut y darperir y gwasanaeth.
- Sut y dangosir sicrwydd ar gyfer y Datganiad am Reolaeth Fewnol blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys sut bydd Pennaeth yr Archwiliad Mewnol yn cyfrannu at y gwaith o adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol, prosesau rheoli risg a systemau rheoli mewnol allweddol y sefydliad.
- Yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn ei ddarparu.
- Y dyraniad cymharol o adnoddau archwilio rhwng sicrwydd gwaith ac unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thwyll neu waith ymgynghori. Bydd yr union ddyraniad yn cael ei benderfynu yn y Cynllun Archwilio.

| | |
|---|---|
| A5 | Dylai'r adran Archwiliad Mewnol ddatblygu strategaeth Archwiliad Mewnol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA. |

### Caiff briffiau aseiniadau eu paratoi a'u rheoli yn unol â Chod Ymarfer CIPFA

**17.** Caiff aseiniadau'r Archwiliad Mewnol eu rheoli'n dda ac mae ffeiliau papur gwaith unigol o safon dda.

**18.** Dengys ein hadolygiad na chynhaliwyd gwaith dilynol ar gyfer aseiniadau 2004/2005 ac nid oedd yr Archwiliad Mewnol wedi adolygu'r gwaith o weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y rheolwyr.

| | |
|---|---|
| A6 | Dylid cynnal gwaith dilynol ac adolygu aseiniadau ac argymhellion y flwyddyn flaenorol. |

## Mae'r Archwiliad Mewnol yn defnyddio gofal proffesiynol priodol wrth gyflawni eu dyletswyddau

**19.** Mae gan yr Archwiliad Mewnol weithdrefnau ar waith i sicrhau y dilynir safonau proffesiynol uchel ac y cydymffurfir â hwy wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod holl staff yr Archwiliad Mewnol yn ymwybodol o'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt gan y safon hon a'u bod yn cydymffurfio â hynny.

## Nid yw Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Cod Ymarfer CIPFA

**20.** Dengys adolygiad o Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol nad yw'n cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Cod Ymarfer CIPFA. Dylai Adroddiad Blynyddol ffurfiol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol i'r sefydliad gynnwys:

- barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad;
- yn datgelu unrhyw amodau i'r farn honno, ynghyd â'r rhesymau dros yr amod;
- cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio a gynhaliwyd i lunio'r farn, yn cynnwys unrhyw ddibyniaeth ar waith gan gyrff sicrwydd eraill;
- tynnu sylw at unrhyw faterion y mae Pennaeth yr Archwiliad Mewnol o'r farn eu bod yn arbennig o berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol;
- cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd gyda'r gwaith a gynlluniwyd a chrynhoi perfformiad y swyddogaeth Archwiliad Mewnol yn erbyn ei fesuriadau perfformiad a meini prawf;
- rhoi sylwadau ar gydymffurfiaeth â'r safonau hyn a chyfleu canlyniadau rhaglen sicrwydd ansawdd yr Archwiliad Mewnol.

**21.** Mae adroddiadau aseiniad Archwiliad Mewnol unigol yn dilyn cynllun safonol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA. Mae'r holl adroddiadau aseiniad yn glir, yn gryno ac yn adeiladol.

| | |
|---|---|
| A7 | Dylai'r Adroddiad Blynyddol fodloni holl ofynion y safon Archwiliad Mewnol o ran cyflwyno adroddiadau. |

## Rheolir gwaith yr Archwiliad Mewnol ar bob lefel

**22.** Mae llawlyfr yr Archwiliad Mewnol yn nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Archwiliad Mewnol yn eu dilyn wrth gynnal ei waith. Mae pob aseiniad archwilio yn ddarostyngedig i adolygiad gan aelod cymwys a phrofiadol o staff yr Archwiliad Mewnol.

**23.** Roedd y gwaith a wnaethpwyd wedi'i gynhyrchu i safon dda a chofnodwyd y canlyniadau a gafwyd a'r casgliadau a luniwyd yn gywir.

Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldebau a chamau gweithredu'r Corff a Archwilir ac a Adolygir | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Annibyniaeth | A1 Dylai staff yr Archwiliad Mewnol lofnodi tystysgrif annibyniaeth flynyddol o ran eu gwaith yn Awdurdod Tân Gogledd Cymru. | Dangos annibyniaeth yr archwilydd. | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol | Cwblhawyd mis Ebrill 2006 |
| 7 | Pwyllgor Archwilio | A2 Dylai'r Awdurdod Tân ffurfio Pwyllgor Archwilio ag iddo gyfansoddiad priodol sy'n bodloni gofynion y canllawiau a gafodd eu cynnwys yng nghyhoeddiad diweddar CIPFA 'Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol'. | Canolbwyntio ar dderbyn adroddiadau a monitro cynnydd ar weithredu. | Do | Pennaeth Cyllid a Chaffael i hyrwyddo Pwyllgor Gweithredol fel Pwyllgor Archwilio dros dro. | 31 Mawrth 2007 |
| 8 | Cydberthnasau | A3 Dylid cynnal trafodaethau cynllunio estynedig gyda rheolwyr yn flynyddol. | Gwella'r broses o gynllunio archwiliad. | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol | 31 Mawrth 2007 |
| 8 | Cydberthnasau | A4 Dylid datblygu Protocol Archwilio sy'n ffurfioli'r berthynas waith rhwng archwiliad mewnol ac archwiliad allanol. | Diweddaru protocol presennol i adlewyrchu arfer gorau cyfredol. | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol/Swyddfa Archwilio Cymru | 31 Hydref 2006 |
| 8 | Strategaeth | A5 Dylai'r adran Archwiliad Mewnol ddatblygu strategaeth Archwiliad Mewnol sy'n bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA. | Canolbwyntio ar ddull archwilio ac adlewyrchu risgiau newydd. | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol | 31 Mawrth 2007 |

| Tudalen | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Cytunwyd | Cyfrifoldebau a chamau gweithredu'r Corff a Archwilir ac a Adolygir | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Rheoli Aseiniadau Archwilio | A6 Dylid cynnal gwaith dilynol ac adolygu aseiniadau ac argymhellion y flwyddyn flaenorol. | Sicrhau bod argymhellion yr archwiliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Cyflwyno adroddiadau | A7 Dylai'r Adroddiad Blynyddol fodloni holl ofynion y safon Archwiliad Mewnol o ran cyflwyno adroddiadau. | Cydymffurfio â safonau'r Archwiliad Mewnol o ran cyflwyno adroddiadau. | Do | Pennaeth yr Archwiliad Mewnol | 31 Mawrth 2007 |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk